# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION A
## DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 (ADRAN 21)

## FFAIR NADOLIG LLANDYSUL 2024

---

Mae HYSBYSIAD yn cael ei roi bod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ar gyfer Atal Rhwystr ayyb.

Yn ystod oriau penodol rhwng 12:00 o’r gloch a 19:00 o’r gloch ar ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2024 oherwydd y digwyddiad uchod, bod rhan o’r heol sy’n cael ei hadnabod fel Stryd y Gwynt, Stryd Lincoln, Rhiw Seion, Llandysul yn sir Ceredigion, yn bresennol ac yn dderbyniol iddo gael ei rwystro.

Mae Cyngor Ceredigion, yn unol â’r pwerau a roddwyd gan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 yn GORCHYMYN A CHYFARWYDDO er mwyn atal rhwystr yn y ffyrdd sydd wedi’u nodi ar y diwrnod hwnnw, y bydd y rheoliadau canlynol yn cael eu dilyn:-

1. Yn amodol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, bydd y rhan o'r ffordd a elwir yn Stryd y Gwynt, Stryd Lincoln, Stryd y Brenin, Rhiw Seion, Llandysul yn sir Ceredigion ar gau i bob cerbyd, gan gynnwys beiciau pedal rhwng 12:00 a 19:00 ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr 2024.
2. Y ffordd wahanol ar gyfer traffig o'r gogledd-ddwyrain o bwynt i'r de-orllewin o'r ffordd sydd ar gau yw teithio ar hyd Stryd y Bont i'w chyffordd â'r B4624. Troi i'r chwith ar y B4624 a theithio i'r gyffordd â'r B4336. Troi i'r dde ar y B4336 a theithio i'r gylchfan. Cymryd yr ail allanfa i'r A486 a theithio i'r gylchfan nesaf. Cymryd y drydedd allanfa ar y B4624 a pharhau i mewn i Landysul i bwynt i'r gogledd-ddwyrain o'r heol sydd ar gau.
   Y ffordd wahanol ar gyfer traffig i'r gogledd-ddwyrain o bwynt i'r gorllewin o'r cau yw teithio ar hyd Rhiw Seion / Heol Gilfach i'w chyffordd â Llyn Y Fran. Troi i'r dde i Lyn y Frân a theithio i'r gyffordd â'r B4624. Troi i'r dde i'r B4624 a pharhau i mewn i Landysul i bwynt i'r gogledd-ddwyrain o'r heol sydd ar gau.
   Cedwir mynediad i gerddwyr.
3. Dim ond yn ystod y cyfryw adegau y bydd darpariaethau erthygl 1 yn gymwys ac i'r graddau y nodir cymhwyso'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt ynddynt gan arwyddion traffig neu stiward penodedig.
4. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r digwyddiadau sy'n achosi'r gorchymyn hwn, neu unrhyw beth a wneir gyda'r caniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am dorri'r Rheoliadau dywededig yw dirwy heb fod yn fwy na mil o bunnoedd

Wedi’i ddyddio 26 Tachwedd 2024

Elin Prysor: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Neuadd Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion